OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 1410

# Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2001

**Diwrnod Penodedig**

**2.** Mai 2001 yw'r diwrnod penodedig y daw darpariaethau canlynol y Ddeddf i rym:—

(a) adran 46(1)(b) (diddymu adrannau 61 i 63 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949(**1**));

(b) adran 46(3) (sy'n cyflwyno Atodlen 4) i'r graddau y mae'n perthyn i ddarpariaethau Atodlen 4 y cyfeirir atynt yn is-baragraff (g) isod;

(c) adran 57 (diwygiadau i Ddeddf 1980 ac i Ddeddfau eraill) i'r graddau y mae'n rhoi effaith i'r amnewidiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (ng) ac (h) isod;

(ch) adran 68 (mynediad cerbydau ar draws tir comin);

(d) adran 70(2) a (4) (mân ddiwygiadau);

(dd) adran 72 (darpariaethau dehongli Rhan II);

(e) Rhan IV (dynodi a rheoli ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol)(ac felly Atodlenni 13, 14 a 15);

(f) adran 96 (diwygiadau i adran 39 o Ddeddf 1981);

(ff) adran 102 i'r graddau y mae'n perthyn i'r darpariaethau yn Atodlen 16 y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (i) i (o) isod ;

(g) paragraffau 1, 4, 5 a 6 o Atodlen 4;

(ng) paragraff 18(a) o Atodlen 6 (diwygiadau i Ddeddf 1980) i'r graddau y mae'n amnewid am "118, 119," yn adran 325(1)(d) o Ddeddf 1980 gyfeiriadau at adrannau 118, 118A, 119 a 119A;

(h) paragraff 19 o Atodlen 6 i'r graddau y mae'n amnewid am "gorchymyn gwyro llwybr cyhoeddus" yn adran 326(5) o Ddeddf 1980 gyfeiriadau at orchymyn diddymu croesfan reilffordd, gorchymyn gwyro llwybr cyhoeddus a gorchymyn gwyro croesfan reilffordd;

(i) Rhan I o Atodlen 16 (diddymiadau sy'n perthyn i fynediad i gefn gwlad) ac eithrio i'r graddau y mae'n diddymu:

(i) adran 193(2) o Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925(**2**);

(ii) paragraff 35A o Atodlen 17 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**3**); a

(iii) paragraff 13 o Atodlen 6 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994(**4**);

(**1**) 1949 p.97
(**2**) 1925 p.20
(**3**) 1972 p.70
(**4**) 1994 p.19

(l) Rhan II o Atodlen 16 (diddymiadau sy'n perthyn i hawliau tramwy cyhoeddus a thraffig ffyrdd) i'r graddau y mae'n diddymu adran 22(1)(a) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984 (**5**));

(m) Rhan II o Atodlen 16 i'r graddau y mae'n diddymu adran 134(5) o Ddeddf 1980;

(n) Rhannau III a IV o Atodlen 16 (diddymiadau sy'n perthyn i safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig a bywyd gwyllt); ac

(o) Rhannau V a VI o Atodlen 16 (diddymiadau sy'n perthyn i ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol ac i Ddeddf 1981).

(**5**) 1984 p.27